

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No 9	
English	Cymraeg
Int 174	DL 8 / 9
Porth yr Ogof Attributed to Samuel Jackson, watercolour	Porth yr Ogof Priodolir i Samuel Jackson, dyfrlliw
The picture shows the entrance to the cavern through which the river Mellte flows for almost 1½ miles. It is near the village of Ystradfellte at the head of the Neath Valley and is part of spectacular waterfall country which has been visited and painted for centuries. Attributed to the Bristol artist, Samuel Jackson (1794-1869).	Mae'r darlun yn dangos y fynedfa i'r ceudwll y llifa Afon Mellte drwyddo am bron i 1½ milltir. Mae ger pentref Ystradfellte ym mhen uchaf Cwm Nedd ac mae'n rhan o wlad y rhaeadrau ysbennydd yr ymwelwyd â nhw ac a baentiwyd ers canrifoedd. Priodolir i'r arlunydd o Fryste, Samuel Jackson (1794-1869).
Int 175	DL 8 / 9
Capel-y-ffin, snow Reg Gammon, watercolour	Capel-y-ffin, eira Reg Gammon, dyfrlliw
Chapel Farm, with the Tympa behind, painted 1954. Reg Gammon and his wife first stayed here with the Saunders family when they came to Capel-y-ffin in 1940. They then rebuilt and established a small holding at The Carney higher up the valley, and Gammon wrote and illustrated articles for a number of journals.(53)	Fferm y Capel, gyda'r Twmpa y tu ôl iddo, paentiwyd ym 1954. Arhosodd Reg Gammon a'i wraig yma gyda'r teulu Saunders yn gyntaf pan ddaethant i Gapel-y-ffin ym 1940. Yna, fe wnaethant ailadeiladu a sefydlu tyddyn yn y Carney yn uwch i fyny'r cwm, ac ysgrifennodd a darluniodd Gammon erthyglau ar gyfer nifer o gylchgronau.(53)
Int 176	DL 8 / 9
Pen-y-bont Inn, Ystradgynlais Josef Herman, oil	Gwesty Pen-y-bont, Ystradgynlais Josef Herman, olew
In 1938 Josef Herman (1911-2000) fled from Poland, but his family were all killed in the Holocaust. In 1940 he and his wife Catriona came to Ystradgynlais where he was overcome by the image of miners walking home from work. Pen y Bont Inn, painted in 1949, was their first home there. (52)	Ym 1938, ffodd Josef Herman (1911-2000) o Wlad Pwyl, ond lladdwyd ei deulu i gyd yn yr Holocost. Ym 1940, fe ddaeth ef a'i wraig Catriona i Ystradgynlais lle cafodd ei lethu gan y ddelwedd o lowyr yn cerdded adref o'r gwaith. Gwesty Pen y Bont, a baentiwyd ym 1949, oedd eu cartref cyntaf yno. (52)

Int 177		DL 8 / 9	
The Waterwheel Eric Ravilious, watercolour		Yr Olwyn Ddŵr Eric Ravilious, dyfrlliw	
Eric Ravilious, an English landscape painter, came to Capel-y-Ffin in the Black Mountains in early 1938. He stayed with the Saunders family at Chapel Farm. In a letter Ravilious describes how the waterwheel was made by the farmer's son ' <i>out of chunks of wood and the bottoms of petrol tins</i> '. (50)		Daeth Eric Ravilious, arlunydd tirluniau o Loegr, i Gapel-y-ffin yn y Mynyddoedd Duon ar ddechrau 1938. Arhosodd gyda'r teulu Saunders yn fferm y Capel. Mewn llythyr, disgrifia Ravilious sut y cafodd yr olwyn ddŵr ei gwneud gan fab y ffermwr ' <i>allan o ddarnau o bren a gwaelodion tuniau petrol</i> '. (50)	
Int 178		DL 8 / 9	
Welsh Mountains Augustus John, oil on board		Mynyddoedd Cymru Augustus John, olew ar fwrdd	
The celebrated Welsh painter, Augustus John (1878-1961), is best-known for his vibrant paintings of his family, but between 1910 and 1913 he made several visits to north Wales. This work is a view from Tanygrisiau, near Blaenau Ffestiniog, and may date from 1913 when he stayed in a cottage above the village.(52)		Caiff yr arlunydd enwog o Gymru, Augustus John (1878-1961), ei adnabod orau am ei baentiadau bywiog o'i deulu, ond rhwng 1910 a 1913, fe ymwelodd â gogledd Cymru sawl gwaith. Mae'r gwaith hwn yn olygfa o Danygrisiau, ger Blaenau Ffestiniog, ac mae'n bosibl ei fod yn dyddio o 1913 pan arhosodd mewn bwthyn uwchlaw'r pentref.(52)	
Int 179		DL 8 / 9	
Santes Mariona Iwan Bala, oil on canvas		Santes Mariona Iwan Bala, olew ar gynfas	
Welsh artist Iwan Bala draws on Welsh traditions in this creation of Santes Mariona, painted in 2001. She is in Welsh costume, transformed into a mother goddess. Mariona is holding aloft a dish spilling blood, signifying the re-birth of Wales to a hopeful, if uncertain, future. The ladder suggests the opportunity of climbing to greater understanding.(56)		Mae'r arlunydd o Gymru, Iwan Bala, yn defnyddio traddodiadau Cymreig yn y gwaith hwn o Santes Mariona, a baentiwyd yn 2001. Mae hi yn y wisg Gymreig, ac wedi ei thrawsnewid yn fam-dduwes. Mae Mariona'n dal dysgl uwch ei phen sy'n arllwys gwaed, gan ddynodi ail-enedigaeth Cymru i ddyfodol gobeithiol, os ansicr. Mae'r ysgol yn awgrymu cyfle i ddringo i well dealltwriaeth.(56)	

Int 180		DL 8 / 9	
<p>Y Twmpa David Jones, watercolour and pencil on paper</p>		<p>Y Twmpa David Jones, dyfrlliw a phensil ar bapur</p>	
<p>Artist and poet, David Jones (1895-1974), spent the spring of 1926 at the monastery at Capel-y-ffin, Breconshire. He loved the Black Mountains, and repeatedly painted this view looking up the Llanthony valley towards the mountain of Y Twmpa. Its top is cut off and the focus is the group of trees in the middle distance. (55)</p>		<p>Treuliodd yr arlunydd a'r bardd, David Jones (1895-1974), wanwyn 1926 yn y fynachlog yng Nghapel-y-ffin, Sir Frycheiniog. Carai'r Mynyddoedd Duon, a phaentiodd yr olygfa hon dro ar ôl tro gan edrych i fyny Dyffryn Llanddewi Nant Hodni tuag at fynydd y Twmpa. Mae ei gopa wedi ei dorri i ffwrdd a'r pwyslais yw'r grŵp o goed yn y pellter canol. (55)</p>	
Int181		DL 8 / 9	
<p>Limestone Rocks, near Pontneddfechan (Bwa Maen) Hendrick Evans De Cort (1742-1810) Pencil and Indian ink wash on paper, 1790s.</p>		<p>Creigiau Calchfaen, ger Pontneddfechan (Bwa Maen) Hendrick Evans De Cort (1742-1810) Pensil a golch inc Indiaidd ar bapur, 1790au.</p>	
<p>The great prow of rock known as Bwa Maen (literally the 'stone arch' or 'stone bow') is a massive block of carboniferous limestone at the top of the Vale of Neath. It is on the south side of the Dinas Rock. De Cort was a Flemish landscape artist commissioned to paint views in the Neath Valley. (56)</p>		<p>Mae pen blaen craig o'r enw Bwa Maen yn floc anferth o galchfaen carbonifferaidd ym mhen uchaf Dyffryn Nedd. Mae ar ochr ddeheuol Craig y Ddinas. Arlunydd Ffleminaidd oedd De Cort ac fe'i comisiynwyd i baentio golygfeydd yng Nghwm Nedd. (56)</p>	
Int 182		DL 8 / 9	
<p>Brecon on the river Usk John Varley, watercolour on paper</p>		<p>Aberhonddu ar afon Wysg John Varley, dyfrlliw ar bapur</p>	
<p>English watercolourist, John Varley (1778-1842) first painted the river Honddu converging with the River Usk in 1800. On his return in 1837 his depiction had developed into a more romantic vision, showing the influence of the French painter, Claude. The river and bridge are exaggerated and Varley has moved the sun to set in the north. As Varley told his pupils; "nature needs cooking". (64)</p>		<p>Paentiodd y dyfrliwiwr o Loegr, John Varley (1778-1842) afon Honddu yn cydgyfeirio ag Afon Wysg ym 1800 am y tro cyntaf. Erbyn iddo ddychwelyd ym 1837, roedd ei ddarluniad wedi datblygu yn weledigaeth fwy rhamantus, gan ddangos dylanwad y arlunydd Ffrengig, Claude. Caiff yr afon a'r bont eu gorbwysleisio ac mae Varley wedi symud machlud yr haul i'r gogledd. Fel y dywedodd Varley wrth ei ddisgyblion; "mae angen coginio natur". (64)</p>	

<p>Woman Wyndham Lewis, pencil</p>	<p>Menyw Wyndham Lewis, pensil</p>
<p>During the first world war Wyndham Lewis (1882-1957) was co-founder of the Vorticist art movement. After a period writing novels, he returned to painting in the 1930s, when he married his second wife Gladys Anne Hoskins, known as 'Froanna'. Although untitled, this painting, dated 1936, is probably one of his drawings of Froanna.(53)</p>	<p>Yn ystod y rhyfel byd cyntaf, roedd Wyndham Lewis (1882-1957) yn gyd-sylfaenydd y mudiad celf Fortisiaeth. Ar ôl cyfnod yn ysgrifennu nofelau, ail-ddechreuodd baentio yn y 1930au pan briododd ei ail wraig, Gladys Anne Hoskins, a adwaenid fel 'Froanna'. Er nad oes teitl ar y paentiad hwn dyddiedig 1936, mae'n debyg mai un o'i baentiadau o Froanna ydyw.(53)</p>
<p>Submitted by: WG</p>	<p>Date: 2908/2019</p>
<p>Completed by:</p>	<p>Date: .././2019</p>